**RHYBUDD O WNEUD GORCHYMYN**

**DEDDF Y PRIFFYRDD 1980**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Llwybr Troed 48/11 Godre'r Garth Llanddewi Brefi**


Bydd y Gorchymyn uchod a wnaed ar yr $2^{ail}$ o fis Mawrth 2016 , yn unol ag adran 119 o Ddeddf y Priffyrdd 1980, yn gwyro llwybr troed o bwynt A SN6440:5555 mae'r llwybr yn mynd i gyfeiriad y gogledd orllewin ar draws y cae hyd at gât arall ym mhwynt B SN6438:5597. Mae'n mynd rhagddo at gât ym mhwynt C SN6437:5562 lle mae'n croesi trac mynediad Godre'r Garth. Mae'n mynd trwy gât arall eto i'r cae yn union i'r dwyrain i'r tŷ. Mae'n mynd rhagddo i gyfeiriad y gogledd ddwyrain gan ddilyn lein y ffens hyd at bwynt E SN6438:5580; i drywydd yn rhedeg o gat ym mhwynt A SN6440:5555 mae'r llwybr yn mynd rhagddo i gyfeiriad y gogledd ddwyrain ar hyd lein y ffens hyd at gât ym mhwynt G SN6445:5559. Mae'n troi 90 gradd ac mae'n dilyn trac mynediad Godre'r Garth am oddeutu 50 metr at gât ym mhwynt F SN6443:5566. Mae'n mynd i mewn i'r cae ac mae'n mynd i gyfeiriad y gogledd orllewin ar draws y cae gan ailymuno â'r lein ddiffiniol ym mhwynt E SN6438:5580 fel y nodwyd ar y map gorchymyn.

Cewch weld copi o'r Gorchymyn a'r map sydd gyda'r Gorchymyn yn rhad ac am ddim yng Nghyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA rhwng 10.00am a 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener o $2^{ail}$ o fis Mawrth 2016 Cewch brynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £20.35.

Dylai unrhyw sylwadau ar y gorchymyn hwn neu wrthwynebiad iddo, gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Pennaeth Perfformiad a Economi, Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA, erbyn $1^{sf}$ o Ebrill 2016. Cofiwch nodi ar ba sail yr ydych yn eu gwneud.

Os na dderbynnir unrhyw sylwadau, neu wrthwynebiad i'r uchod, neu os tynnir y gwrthwynebiadau a wnaed yn ôl, gall Cyngor Sir Ceredigion gadarnhau'r Gorchymyn fel un heb wrthwynebiad. Os anfonir y gorchymyn at Lywodraeth Cymru er mwyn ei gadarnhau, bydd unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau na thynnwyd mohonynt yn ôl yn cael eu hanfon gyda'r Gorchymyn.

Dyddiedig $2^{ail}$ o fis Mawrth 2016



Russell Hughes-Pickering
Pennaeth Perfformiad a Economi